Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Old Rectory**

**The Old Rectory**
**Heol Henllan**
**Dinbych**
**LL16 5UF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

**12 Gorffennaf 2022**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â The Old Rectory

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | GALLTFAENAN HALL LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 9 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn yw'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers iddo gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael gofal a chymorth unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol a byw eu bywyd yn y ffordd y maent yn dymuno. Gan fod yr holl staff wedi gweithio yn y cartref ers blynyddoedd lawer, mae'r bobl yn gyfarwydd â'r rhai sy'n eu cynorthwyo ac yn gallu mynegi eu hunain yn rhydd. Mae ganddynt ddewis ar bob mater sy'n bwysig iddynt. Mae'r amgylchedd yn gartrefol, ac mae'r bobl yn dewis addurniadau eu hystafelloedd eu hunain yn ôl eu chwaeth personol.

Mae'r staff yn cael eu hyfforddi i gyflawni eu rôl ac yn cael eu fetio cyn cael cyflogaeth. Mae'r rheolwr wedi gweithio yn y cartref ers dros ugain mlynedd ac mae'n arwain trwy esiampl; mae'r diwylliant yn un o barch a charedigrwydd gyda phwyslais clir ar ganiatáu i'r bobl ddefnyddio eu cryfderau, i'w helpu i dyfu ac i ddatblygu. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n adlewyrchu eu diddordebau a'u hobïau unigryw eu hunain. Maent yn defnyddio cyfleusterau lleol ac yn cynnal perthynas agos gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth ddealltwriaeth dda o sut mae'r cartref yn gweithredu, ac mae'n gwneud ymweliadau rheolaidd â The Old Rectory ac yn cyfathrebu'n aml â'r rheolwr, y staff a'r bobl sy'n byw yma. Mae'r bobl yn cymryd rhan lawn yn yr hyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth, a chaiff eu safbwyntiau eu casglu'n rheolaidd ar faterion sy'n bwysig iddynt.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth ynghylch y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn y cartref. Maent yn dewis sut i dreulio eu diwrnod ac yn cyflawni eu harferion dyddiol. Mae dogfennau cynllunio gofal yn cofnodi hoffterau a diddordebau'r bobl, a gwelsom dystiolaeth y darperir ar gyfer y rhain. Mae'r bobl yn teimlo'n rhan o'u cymuned gan eu bod yn cael eu cefnogi i ddefnyddio cyfleusterau lleol, i gymdeithasu, ac i gynnal cydberthnasau gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd. Mae gan y bobl wahanol ddiddordebau a hobïau, nodau a dyheadau; maent yn cael eu cynorthwyo i fyw eu bywydau fel unigolion yn gwneud yr hyn y maent am ei wneud.

Gofelir am lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl gan y staff hyfforddedig sy'n cefnogi'r bobl i fynychu apwyntiadau iechyd ac i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn, megis rheoli eu harian eu hunain hyd eithaf eu gallu a chael mynediad at arweiniad ac addysg i wella eu datblygiad personol. Mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn cael eu hadolygu'n fisol er mwyn gallu nodi unrhyw newidiadau yn gyflym. Mae niferoedd y staff yn ddigonol i gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol a darparu gofal ychwanegol pan fydd y bobl yn sâl.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag arferion gwael, cam-drin ac esgeulustod gan fod y staff wedi'u hyfforddi ym maes diogelu, ac mae polisïau ar waith i'w harwain. Mae'r staff wedi gweithio yn y cartref ers blynyddoedd lawer ac mae diwylliant cadarnhaol cryf sy'n helpu i sicrhau’r arferion gorau a gofal a chymorth personol a rhagorol.

Mae'r gwasanaeth yn parchu'r bobl fel unigolion ac adlewyrchir hyn yn eu hystafelloedd gwely eu hunain ac o amgylch y cartref. Mae'r bobl yn dewis sut olwg sydd ar eu hystafell, y lliwiau, y dodrefn a'r addurniadau. Mae The Old Rectory yn darparu amgylchedd cartrefol i'r bobl sy'n byw yno; mae ffotograffau teuluol yn y neuadd yn helpu gwneud i'r bobl deimlo eu bod yn perthyn. Mae'r darparwr yn ceisio gwella'r cartref ymhellach megis lloriau newydd ar gyfer y neuadd a'r grisiau, a llenni newydd ar gyfer y lolfa, a bydd y bobl yn cymryd rhan yn y broses o ddewis y rhain.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o’r ansawdd sydd ei angen arnynt, ac sydd orau ganddynt, gan fod eu cynlluniau personol yn cael eu cwblhau gyda'u cyfranogiad; maent yn cael eu cadw'n gywir ac yn ystyried yn llawn eu dymuniadau, eu hoffterau, a’u hanghenion corfforol, meddyliol ac emosiynol. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar gryfderau a sgiliau, a chaiff y bobl eu cefnogi i ddatblygu ac i wneud cynnydd yn eu dysgu. Mae asesiadau risg yn sicrhau bod y bobl yn gallu gwneud yr hyn y mynnant yn ystod eu diwrnod a gwneud hyn yn annibynnol, ond hefyd gyda’r lefel gywir o gymorth os oes ei angen. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i dreulio eu hamser yn dilyn hobïau a diddordebau, gan gynnwys llawer o weithgareddau cymunedol. Roedd y bobl wedi bod i'r sw ar y diwrnod cyn ein hymweliad, ac roedd rhai yn mynd i ffair Jiwbilî leol ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae un person yn trefnu taith fferi i Ddulyn, ac mae rhywun arall yn mwynhau canu ac mae ganddo gornel karaoke yn arbennig ar ei gyfer. Mae rhywun yn mwynhau adeiladu modelau ac mae ganddo le yn y sied yn yr ardd gyda mainc i wneud hyn. Roedd wedi bod i brofi hynofedd cwch model yr oedd wedi’i adeiladu ar afon leol. Gwelsom fod y bobl wedi datblygu'n bersonol ers bod yn y cartref; mae eu hyder wedi cynyddu fel eu bod yn gallu gwneud mwy drostynt eu hunain megis cyflawni gweithgareddau cymdeithasol yn annibynnol. Mae un person wedi dilyn cyrsiau mewn hylendid bwyd a chymorth cyntaf. Mae'r bobl yn tyfu ac yn datblygu yn y cartref ac yn cyflawni eu canlyniadau personol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn adolygu pob cynllun personol gyda'r unigolyn a'i deulu os oeddent ar gael. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau am eu gofal. Mae adran proffil personol yn y dogfennau cynllunio yn cynnig disgrifiad mwy personol o hanes y bobl, eu diddordebau, a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd yn gofyn am safbwyntiau'r bobl am y gwasanaeth ac unrhyw welliannau a newidiadau arfaethedig. Buom yn siarad â'r bobl a fynegodd cymaint y maent wrth eu bodd yn byw yma. Roedd perthynas a oedd yn ymweld â’r cartref yn canmol y gofal a chymorth a chymorth, gan ddweud nad oes *‘dim byd yn ormod o drafferth*’. Gwelsom y bobl yn dewis yr hyn y maent am ei fwyta a ble i fwyta eu prydau bwyd. Maent yn dewis pryd i godi a sut i dreulio eu hamser.

Gofelir am les corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl gan staff gofal sy'n ceisio cyngor proffesiynol pan fo angen. Gwelsom gofnodion o apwyntiadau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, deintyddion a meddygon teulu, a gwasanaethau iechyd meddwl. Mae nyrsys ardal yn ymweld pan fydd y bobl yn sâl, fel y gallant aros yn eu cartref pan fydd eu hanghenion yn newid.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu amgylchedd gyda digon o le i'r bobl symud o gwmpas yn rhydd a gwneud dewisiadau ynghylch ble maent am dreulio eu diwrnod. Mae dwy lolfa gartrefol yn darparu lle bach tawel, ac mae lolfa fwy yn darparu ar gyfer cymdeithasu gyda soffas a chadeiriau breichiau cyfforddus a llawer o olau naturiol. Mae ystafell fwyta gyfforddus, er y gall y bobl fynd â'u prydau bwyd i ba bynnag le y dymunant; gwelsom un person yn bwyta yn y lolfa gyda hambwrdd glin fel yr oedd yn well ganddo. Mae'r ystafelloedd gwely mewn lliwiau a ffabrigau dodrefnu a ddewisir gan y preswylydd. Gwelsom un ystafell wely yn binc gyda disgleiryddion a delweddau prydferth ar y waliau, a llen secwinau yn sgrinio ardal lle mae pêl disgo yn hongian ac offer karaoke yn cael eu cadw. Mae ystafell arall wedi'i haddurno mewn lliw llachar ac mae'r waliau wedi'u haddurno â ffotograffau a lluniau o ddiddordeb i'r person. Mae gan rywun arall ystafell wely wedi'i lleoli mewn man heddychlon gydag agwedd ddeublyg sy'n caniatáu golau naturiol; mae ganddo ffotograffau teuluol a ffotograffau o wyliau yn y gorffennol a llongau mordaith ar y wal, gan ddal diddordebau'r person; mae cadair freichiau gyfforddus yn caniatáu i'r person eistedd a chwblhau ei ddyddlyfr dyddiol. Mae gan bawb wely dwbl oni bai eu bod wedi gofyn am beidio â chael un; mae ffotograffau teulu personol a lluniau wedi'u dethol ar waliau ystafelloedd gwely a ffotograffau o'r bobl yn blant ifanc yn y cyntedd, gan roi naws deuluol go iawn i'r cartref hwn. Mae pob ystafell wely yn unigryw ac yn adlewyrchu diddordebau a dewisiadau'r person. Mae lifft grisiau ar gyfer y bobl â phroblemau symudedd, felly nid oes un ardal yn anhygyrch. Y tu allan, mae adeiladau allanol sy'n darparu lle i'r bobl gyflawni eu hobïau megis adeiladu modelau. Mae gardd fawr ac ardal barbeciw yn caniatáu cymdeithasu yn yr awyr agored ac mae ieir ac anifeiliaid anwes eraill i'r bobl eu mwynhau.

Mae gan y darparwr gwasanaeth fesurau ar waith i nodi a lliniaru risgiau a chynnal cyfleusterau ac offer. Mae gweithiwr cynnal a chadw sy'n cadw'r cartref mewn cyflwr da ac yn cynnal y profion gorfodol ar offer diogelwch; mae gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau ar gyfer dŵr, offer tân, offer trydanol, a gosodiadau trydan. Gwelsom fod digwyddiadau a damweiniau'n cael eu harchwilio i werthuso a nodi themâu, ac i wneud rheoli risg yn fwy effeithiol. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant i wella diogelwch fel diogelwch tân, cymorth cyntaf, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch, a symud a thrin. Mae'r gegin yn lân iawn a dyfarnwyd sgôr o 5 iddi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar ei hymweliad diwethaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol a bod gan yr unigolyn cyfrifol, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r cartref, drosolwg da. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref i gwblhau archwiliadau, siarad â'r bobl sy'n byw yn y cartref, a gwirio cynnydd y gwasanaeth. Cwblhaodd yr unigolyn cyfrifol 'Adolygiad Ansawdd Gofal' ym mis Ebrill 2022 ac mae'r adroddiad yn dangos beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda, a pha feysydd sydd wedi'u nodi ar gyfer gwelliant pellach. Mae gan y rheolwr ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i gyfarwyddo'r staff a chadw preswylwyr yn ddiogel. Dim ond ar ôl cynnal gwiriadau i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y rôl y caiff y staff eu cyflogi; darperir hyfforddiant i sicrhau bod gan y bobl yr arbenigedd sydd ei angen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau yn ddiogel. Gwelsom fod hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n berthnasol i anghenion unigol pob person yn cael ei geisio a'i ddarparu. Yn ddiweddar, mynychodd y rheolwyr y coleg er mwyn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddiwallu anghenion un person.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i reoli eu harian. Gwelsom un person yn cyfarfod â chyfrifydd ac mae'n gwbl ymwybodol o'i sefyllfa ariannol. Mae ganddo gerdyn banc ac mae’n gwirio ei falans ac yn codi arian pan fydd ei eisiau. Gall y bobl ddefnyddio eu harian ar gyfer y pethau sy'n bwysig iddynt, i gefnogi eu hobïau, ymweld â'r dafarn, ac ar gyfer eu byrbrydau ychwanegol a'u diodydd pefriog eu hunain. Gwelsom fod un person yn dewis gwario rhywfaint o'i arian yn siopa am eitemau o ddiddordeb iddo a’i fod yn cael ei gefnogi i wneud hynny.

Gwelsom fod digon o staff yn cael eu cyflogi i sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi'n dda i gyflawni eu canlyniadau, a bod staff ychwanegol yn cael eu cyflogi pan fydd anghenion y bobl yn newid. Mae'r staff yn cael cymorth gan eu rheolwr, gyda chyfleoedd rheolaidd i gyfarfod a thrafod arferion. Gwnaethom siarad â rhai o'r bobl sy'n byw yn y cartref, a fynegodd eu boddhad mawr â'r staff. Mae'r staff wedi gweithio yn y cartref ers blynyddoedd lawer; tair blynedd yn ôl y cyflogwyd yr aelod o staff mwyaf diweddar, ac mae'r rheolwr wedi gweithio yno ers dwy flynedd ar hugain. Mae'r dilyniant hwn wedi helpu i sicrhau diwylliant cadarnhaol, ac mae'r rheolwr yn arwain drwy esiampl, gan sicrhau bod y staff yn cyflawni eu rolau gydag amynedd, caredigrwydd a gofal. Mae'r pwyslais ar adeiladu ar gryfderau'r bobl, gan gynorthwyo eu datblygiad personol a chaniatáu iddynt fyw'r bywydau y maent am eu byw.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes / Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 18/08/2022